# Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

## (SLC(3)-12-08)

### SLC154

### Adroddiad y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth

O dan Reol Sefydlog 15.2 gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw penodol i'r offeryn canlynol.

### Teitl: Rheoliadau Deunyddiau ac Eitemau Plastig mewn Cysylltiad â Bwyd (Cymru) 2008

-

rhoi ar waith yng Nghymru Gyfarwyddeb 2007/19/EC y Comisiwn Ewropeaidd sy'n diwygio Cyfarwyddeb 2002/72/EC drwy ddiweddaru'r rhestrau o sylweddau ac ychwanegion monomer a ganiateir ar gyfer eu defnyddio wrth gynhyrchu plastig sy'n dod i gysylltiad â bwyd a gosod amodau ar gyfer eu defnyddio'n ddiogel. Mae'r offeryn yn torri'r rheol 21 diwrnod gan iddo gael ei wneud a'i osod gerbron y Cynulliad ar 20 Ebrill 2008 a dod i rym (ar wahân i rai dirymiadau) ar 1 Mai 2008. Mae'r Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ wedi cynghori, yn ei lythyr at y Llywydd dyddiedig 30 Ebrill 2008, bod torri'r rheol wedi digwydd o ganlyniad i'r angen i drosi'r Gyfarwyddeb a'i rhoi ar waith erbyn 1 Mai 2008.

### Gweithdrefn: Negyddol

Gwahoddir y Cynulliad i dalu sylw arbennig i'r offeryn hwn o dan Reol Sefydlog 15.2(ix) (nad yw wedi'i wneud neu i'w wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg): Drafftiwyd yr offeryn yn Saesneg yn unig. Yn ei lythyr at y Llywydd nododd y Cwnsler Cyffredinol ac Arweinydd y Tŷ fod y Dirprwy Weinidog dros Wasanaethau Cymdeithasol wedi penderfynu na fyddai'n ymarferol bosibl i wneud y Rheoliadau'n ddwyieithog oherwydd yr angen i drosi'r Gyfarwyddeb a'i rhoi ar waith erbyn 1 Mai 2008 ac er mwyn sicrhau y byddai'r Rheoliadau'n dod i rym ar yr un pryd â rheoliadau cyfochrog yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon, gan felly sicrhau gorfodaeth a diogelwch cyson i ddefnyddwyr ar draws y DU. Roedd hyd a natur dechnegol y Rheoliadau (mae'r Atodlen yn rhyw 17,000 o eiriau) yn golygu y byddai fersiwn Gymraeg wedi cymryd rhwng 4 a 6 wythnos i'w gynhyrchu ac felly na fyddai fersiwn Cymraeg wedi ei gynhyrchu mewn pryd i gydymffurfio â'r dyddiad cau ar gyfer trosi. Deellir bod y Llywodraeth yn bwriadu dirymu ac ail-wneud y Rheoliadau hyn yn ddwyieithog.

Cynghorydd Cyfreithiol
Y Pwyllgor Is-ddeddfwriaeth
Mai 2008